Darlith Flynyddol Edward Lhuyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru



# Yr Athro Jane Aaron

## Colli Gwyrddni: Ecofeirniadaeth a gwaith rhai o feirdd Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Pontio, Bangor

Nos Fawrth, 18 Tachwedd 2025 am 19:00

*Darlith Edward Lhuyd,2025*

# **Colli gwyrddni:**
# Ecofeirniadaeth a barddoniaeth Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Jane Aaron

Gyda'i ddiddordeb byw ym myd natur, mae'n siwr y byddai Edward Lhuyd, pe bae gyda ni heddiw, wedi croesawu'r twf diweddar mewn astudiaethau ecofeirniadol. Meddai ef mewn llythyr at un o'i gyfeillion yn 1686:

> It would be but needlesse to tell you that ye studie of Nature affoords infinite pleasure to them yt minde it; that it satisfies mens reason and curiosite above all others; that it heals all disturbances of ye minde, and renders men thinking and active; that it furnishes such as are well seen in it with a treasure of real knowledge; that it takes away many vices yt men might be guilty of, in thought or action if not diverted by this innocent employment; and yt it dayly manifests ye incomprehensible power of our Creator.[1]

'Hybu cyfnewid syniadau a gwybodaeth am lenyddiaeth sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng pobl a'r byd naturiol' yw nod astudiaethau ecofeirniadol, meddai Heather Williams mewn erthygl ddiweddar ar 'Ecofeirniadaeth i'r Celtiaid'.[2] Mae iddynt hefyd bwrpas gwleidyddol, sef ceisio dyfnhau ein dealltwriaeth o achosion ac effeithiau'r argyfwng hinsawdd presennol a'n ymgryfhau i wrthsefyll y rhai a fyn ei ddiystyru.

Yn y Gymraeg, un darn o lenyddiaeth a ddyfynnir yn aml yn y cyd-destun hwn yw'r gerdd 'Coed Glyn Cynon', gan fardd anhysbys o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Ymateb mae'r bardd i

---

[1] Edward Lhuyd (1686), llythyr at David Lloyd, 9 Ionawr; gweler R. T. Gunther (1945), *Life and Letters of Edward Lhuyd*, t. 78.

[2] Heather Williams (2008), 'Ecofeirniadaeth i'r Celtiaid', *Llenyddiaeth mewn Theori*, 3, 5; cyfieithiad yw'r dyfyniad o Cheryll Glotfelty a Harold Fromm (gol.) (1996), *The Ecocriticism Reader: Landmarks in Literary Ecology*, t. xviii.

dwf y diwydiant haearn yn nwyrain Morgannwg yn saithdegau ac wythdegau'r ganrif honno, pan godwyd ffwrneisiau yn yr ardal gan feistri haearn o dde-ddwyrain Lloegr. Er mwyn cynhyrchu siarcol i doddi'r haearn, torrwyd a llosgwyd coedwigoedd lleol, gan gynnwys coed Glyn Cynon. Meddai'r bardd:

> Aberdâr, Llanwynno i gyd,
>    Plwy Merthyr hyd Lanfabon,
> Mwya' adfyd a fu erioed
>    Pan dorred Coed Glyn Cynon ...
>
> Llawer bedwen las ei chlog
>    (Ynghrog y byddo'r Saeson!)
> Sydd yn danllwyth mawr o dân
>    Gan wŷr yr haearn duon.

Diweddariad o'r gerdd wreiddiol yw'r penillion hyn; diweddarwyd hwy gan Christine James yn ei herthygl yn y gyfrol *Cwm Cynon*, o Gyfres y Cymoedd Hywel Teifi Edwards. Yn y traethawd hwnnw, meddai Christine James:

> Cerdd brotest yw 'Coed Glyn Cynon', cerdd ecolegol, cerdd werdd, cerdd sydd yn gweiddi yn erbyn y perygl real o golli am byth amgylchedd naturiol hardd a brau. … prin y byddai angen gwneud llawer mwy nag ychwanegu pennill yn sôn am effaith torri'r coed ar yr haenen osôn a chynhesu byd-eang i wneud neges sylfaenol 'Coed Glyn Cynon' mor gwbl berthnasol heddiw â'r dydd y'i lluniwyd.[3]

---

[3] Christine James (1997), 'Coed Glyn Cynon', *Cwm Cynon*, Cyfres y Cymoedd, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul: Gwasg Gomer), t. 47 a t. 52.

Ac mae Dylan Foster Evans yn ategu ei geiriau yn ei erthygl ddiweddar ef, '"Cyngor y Bioden": Ecoleg a Llenyddiaeth Gymraeg'.[4]

Yn yr un modd, nid oes ond eisiau ychwanegu ychydig eiriau yn sôn am effaith y diwydiant glo ar yr haenen osôn i wneud llawer cerdd a gyhoeddwyd yn y Gymraeg yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chychwyn yr ugeinfed ganrif yn berthnasol iawn i ni heddiw. Cymerer, er enghraifft, y gerdd 'Treisio'r Cwm' gan y bardd Gwilym Myrddin (William Jones, 1863–1946). Magwyd ef mewn ffermdy ger Llanymddyfri, ond cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er mwyn ennill cynhaliaeth i'w deulu, fe fu'n rhaid iddo symud i weithio yng nglofa Pantyffynnon yn Rhydaman, lle y niweidiwyd ei iechyd gan y llwch glo a'i effeithiau gwael ar yr ysgyfaint. Ond yn y gerdd, nid gymaint effaith y diwydiant glo ar ei iechyd personol sydd yn poeni'r bardd ond yn hytrach ei effaith ar ddiwylliant ei fro ac ar fyd natur. Dyma rai o benillion 'Treisio'r Cwm':

> Gwae inni o'r estroniaid brwnt a roes
>   Eu llygaid barcud ar ein mwnau drudion
> Gyrasant ymaith gyfoeth llawer oes
>   I bedwar ban y byd â brys ynfydion …
>
> Gwae inni weled rhannu'r cyfoeth rhad
>   A rodded gan y nef yn nwfn ein glennydd;
> I estron y mae'r aur a'r deg ystad,
>   I ninnau'r hyll hofelau a'r tomennydd …

[4] Gweler Dylan Foster Evans (2006), ' "Cyngor y Bioden": Ecoleg a Llenyddiaeth Gymraeg' *Llenyddiaeth Mewn Theori*, 1, 41–79.

Diflannodd og ac aradr yn eu rhwd
Pan dynnodd llanciau'r wedd at sŵn hwteri,
Ac nid oes erbyn hyn o'r henwyr brwd
A sôn am ddilyn gwedd a hedd aceri.
Rhaid troi calonnau'r plant, a theithio'n hir
O uchel dwrf y Gwaith i hedd y tir.

Nid hyllltod tir yw'r dolur mwyaf trwm;
Daw mwy i'n gŵydd cyn hir na'r tipiau uchel,
Dymchwelwyd traddodiadau hen ein cwm
A bywyd ardal oddi ar ei echel.
Nid trum a ffridd a fydd ein hanial gwyw
A ninnau wedi colli llwybrau byw.[5]

Cyfeirio y mae yn y pennill olaf hwnnw, wrth gwrs, at golli'r 'hen ffordd Gymreig o fyw' a'i hiaith a'i diwylliant wrth i'r diwydiant glo ymledu trwy'r cymoedd. Ond heddiw mae i'w eiriau arwyddocâd byd-eang. 'Nid hyllltod tir' bydd y 'dolur mwyaf trwm' os na lwyddir i 'droi calonnau' yn llwyr oddi wrth y farchnad mewn tanwydd ffosil, ond dymchweliad yr hinsawdd. Ac nid y Cymry yn unig ond y ddynoliaeth a byd natur yn gyffredinol a fydd 'wedi colli llwybrau byw' os parhawn i losgi glo, nwy ac olew.

Nod y ddarlith hon yw ymchwilio ymhellach yng ngwaith beirdd Cymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg am enghreifftiau cyffelyb o gerddi sy'n cyfleu'r un dolur ynghylch colli gwyrddni trwy ddyfodiad diwydiant cloddiol. Bellach, adnabyddir oes y chwyldro diwydiannol fel yr 'Anthropocene', hynny yw, yr oes pan ddaeth yr hil ddynol yn rym daearegol, â'i gweithredoedd niweidiol yn

[5] Gwilym Myrddin, 'Treisio'r Cwm', yn Huw Walters (1976), *Erwau'r Glo* (Abertawe: Christopher Davies), t. 59.

newid hinsawdd y ddaear. Os am ddisgrifiad o hyn yn y Gymraeg, does un man gwell i droi ato nag un arall o ddarlithoedd blynyddol Edward Lhuyd, sef darlith R. Gareth Wyn Jones yn 2017, 'Ynni, Gwaith a Chymhlethdod: Saith Chwyldro Hanesyddol'. Meddai ef:

> Hyderaf fod pawb bellach yn ymwybodol o'r dystiolaeth bendant a diymwad ynghylch newid hinsawdd anthropogenaidd a'i berthynas â llosgi tanwydd ffosil … dengys modelau ffisegol y dylid ymatal rhag defnyddio tanwydd ffosil ac y dylid gadael y gyfran helaethaf ohono yng nghrombil y ddaear. Ond yr adnoddau hyn sy'n sylfaen i rai o gwmnïau mwyaf pwerus a gwerthfawr ein byd … O ganlyniad, mae'r ymateb i newid hinsawdd nid yn unig yn fater technolegol cymhleth ond y mae hefyd yn bygwth y gyfundrefn gyfalafol a golud unigolion tra phwerus sy'n cefnogi'r farchnad rydd, ddilyffethair.[6]

Mewn rhai o gerddi Cymraeg canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ceir disgrifiad manwl o'r modd y llwyddodd rhai o gwmnïau ac unigolion mwyaf pwerus yr oes honno dynnu gwerinwyr i mewn i'w busnes. Roedd cychwyn bywyd yn fab i ffermwr neu dyddynwr, ond wedyn gorfod troi'n weithiwr diwydiannol, yn brofiad digon cyffredin yn ardaloedd y gweithfeydd glo a haearn yn ystod yr adeg honno, wrth i lwch a mwg y gwaith niweidio'r tir a difetha'r gobaith am fywoliaeth amaethyddol. Cymerer, er enghraifft, y gerdd 'Bugail Glyn Ebwy' gan Ieuan Ddu, sef John Thomas (1795–1871) a anwyd mewn ffermdy ger Caerfyrddin ond a oedd yn gweithio ym Merthyr Tydfil pan gyhoeddwyd y gerdd yn 1845.

[6] R. Gareth Wyn Jones (2017), 'Ynni, Gwaith a Chymhlethdod: Saith Chwyldro Hanesyddol', *Darlith Flynyddol Edward Lhuyd*, tt. 16–17.

Y bugail ei hun sy'n cyflwyno'i hanes, gan ddisgrifio i gychwyn ei ddedwyddwch cyn diwydiannu cwm Ebwy:

Rhwng glenydd Ebwy gul
  Pan o'wn i'n fugail llon,
Fy nghân oedd ber o Sul i Sul
  Ar glustog gwerddlas don:
Fy nefaid o'ent yn wyn a du,
  A phan y crwydrent draw,
Eu lliw roi i mi'r arwydd cu
  B'le porent ar bob llaw:
Os eira drwch f'ai'n cannu'r twyn
  Y gwlan-ddu brofai'u gwyb:
Os llwyd-ddu'r bryn y gwynaf ŵyn
  Ganfyddwn ar ei grib.

O'r diwedd gweith-dai mawr,
  O amgylch o'ent a'u mwg
Yn duo esgyll hwyr a gwawr,
  A gwisgo'r haul â gwg.
Fy nefaid llon ar ddol a bron,
  Beth bynag fyddai'u byd,
Ai tes ai gwlaw, i'w gweled draw
  O'r un-lliw oeddent gyd.
A'r caddug du-dew aeth a'u lliw,
  Gwnaeth finnau o'r un gra'n,
A gwaeth na hyn, dan odre'r bryn,
  Yn ddistaw gwnaeth fy nghân.

Wrth weled gwedd fy ŵyn
  Bob hafddydd yn trymhau,

I fugail mwyach Ow! pa swyn
  Oedd yn y ganiad glau?
Mi dyngais wrth yr anwyl ferch
  Ro'i beunydd glust i'm cerdd,
Os cawn ond meddu hon a'i serch
  'Madwn a'r fasnach werdd …
'Nawr ein bywoliaeth ni a'n bri
  Sydd rhwng y gweithiau tân.[7]

Daeth y 'gweithdai mawr' i'r cwm, gweithdai'r diwydiant haearn a'r pyllau glo, a duwyd y tir a'r defaid gan darth y glofeydd. Heb fedru bugeilio'i braidd yn effeithiol mwyach, gorfodwyd Bugail Ebwy i ymadael â'r 'fasnach werdd', a'r unig ddewis iddo wedyn os am ennill bywoliaeth a chynnal teulu yn yr ardal oedd chwilio am waith yn 'y gweithiau tân'.

Yr hyn a gawn yma yw darlun barddonol, lled ysgafn ar un olwg, o'r broses hanesyddol honno y mae Karl Marx yn ei disgrifio fel hanfod cyfalafiaeth. Rhaid gyrru'r amaethwr o'i dir, o'r 'fasnach werdd', cyn bod y dull cyfalafol o gynhyrchu yn bosibl, meddai Marx yn *Das Kapital* yn 1867. Yn ôl ei ddadansoddiadau ef, cyhyd ag y parhâi'r gweithiwr yn berchen ar ei foddion cynhyrchu, roedd crynhoi cyfalafol a'r dull cyfalafol o gynhyrchu yn amhosibl. Roedd y dosbarth o weithwyr cyflog, hynny yw, o lafur rhad, a oedd yn hanfodol i'r gyfundrefn gyfalafol, yn eisiau. Difeddiannu trwch y werin o'u tir oedd sylfaen y dull cyfalafol o gynhyrchu.[8] Dyna ddigwyddodd ar ôl pasio Deddfau

[7] John Thomas (Ieuan Ddu) (1845), 'Bugail Glyn Ebwy', *Y Caniedydd Cymreig/ The Cambrian Minstrel; being a Collection of the Melodies of Cambria, with Original Words in English and Welsh; together with several original airs* (Merthyr Tudful: cyhoeddwyd ar gyfer yr awdur), tt. 119–20.

[8] Gweler Karl Marx (1867), *Das Kapital*, cyf. Paul Reitter, *Capital, vol i: Capital's Process of Production* (Princeton and Oxford: Princeton University Press).

Cae Tiroedd y ddeunawfed ganrif, pan gollodd tyddynwyr y cyfle i ddefnyddio tir y comin. O ganlyniad fe fu'n rhaid i laweroedd ohonynt ymuno â rhengoedd llafur rhad y cyfalafwyr diwydiannol cynnar.

Yn unol â dadansoddiad Marx, erbyn heddiw mae rhai arbenigwyr wedi cynnig na ddylid beio'r hil ddynol, yr Anthropos, yn gyffredinol am y newid hinsawdd a ddaeth o ganlyniad i'r chwyldro diwydiannol a'r holl losgi ar danwydd ffosil. Mewn cyfrol ddiweddar, dadleua Jason Moore mai perchenogion gweithfeydd a chwmnïau mawrion pwerus yr oes oedd yn gyfrifol, nid trwch y boblogaeth. Cafodd y mwyafrif o'r hil ddynol, yn wragedd a phlant yn ogystal â dynion, eu defnyddio gan y system gyfalafol er budd yr ychydig rai ar ben y system. Wrth droi adnoddau natur i mewn i elw, ymelwyd hefyd ar egnïon y mwyafrif o'r ddynoliaeth, fel llafur rhad neu fel caethweision i'r system. Felly, yn ôl Jason Moore, dylem gyfeirio nid at y newid hinsawdd anthropogenaidd ond at y newid hinsawdd cyfalafogenaidd.[9] Yng ngherdd y bugail a ddyfynnwyd uchod, mae'n amlwg ddigon nad o'i ddewis ef y tyfodd y fasnach ddiwydiannol ar draws cymoedd de Cymru. Yn erbyn eu hewyllys y collodd ei fywoliaeth amaethyddol a chael eu herlid o'r tir i weithio yn y gwaith haearn, fel labrwr y system gyfalafol.

Ond yng ngwaith rhai o feirdd oes Fictoria nad oeddynt yn weithwyr diwydiannol, mae peth ansicrwydd ynghylch y cwestiwn mawr: a oedd dyfodiad y chwyldro diwydiannol i Gymru o les i'r wlad ai peidio? Cymerer, er enghraifft, y portread o Ferthyr Tudful yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a geir yng ngwaith un o feirdd Cymraeg enwocaf ei oes. Roedd Islwyn (William Thomas,

[9] Jason W. Moore (2016), 'The Rise of Cheap Nature', yn Jason W. Moore (gol.), *Anthropocene or Capitalocene? Nature, History, and the Crisis of Capitalism* (Oakland, CA: PM Press), tt. 78–115.

1832–1878) yn hollol ymwybodol o'r niwed a wnaethpwyd i amgylchedd yr ardal gan y diwydiannau glo a haearn. Meddai am Ferthyr yn ei awdl 'Cymru':

> O hynod olwg, trafflith adeiliau,
> Fforest o sythion, mawrion ffumerau
> Yn wybr uchod …
> Mantella niwlen mewn dull anolau
> Ar y tirwedd, gan enhuddo'r tyrau
> Drwy y dydd …

Llun hyll, ond eto mae'r bardd yn ychwanegu:

> Os gwywant y glwys gaeau – dan bla dig
> Archwaeth uffernig o'r chwyth-ffyrnau,
> Goludog iawn gawn am goll – yr holl dir …

Er eu holl hylltra daeth y gweithfeydd a chyfleoedd newydd i ennill bywoliaeth nid yn unig i'r tyddynwyr lleol, ond i werin Cymru'n gyffredinol. Tyfodd poblogaeth Merthyr o saith mil ar gychwyn y ganrif i 27 mil erbyn 1831, gyda 96% o'r boblogaeth erbyn hynny yn gweithio yn y diwydiannau haearn neu lo.[10] Collwyd gwyrddni'r tir, do, ond yn ei le ceir holl brysurdeb a bywiogrwydd y ffordd newydd o fyw, ac mae Islwyn yn gwneud yn fawr o hynny:

> Ar ael pob gŵr e welir – *Masnach! Gwaith!*
> *Gwaith* yw'r araith o bob ffumer yrrir.
> A *Gwaith* yw'r aeg a wthir
> O wyll erch y pyllau hir.[11]

[10] Gwyn A. Williams (1988), *The Merthyr Rising* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 26–7, 34.

[11] Islwyn, 'Cymru', yn *Gwaith Barddonol Islwyn* (1897), Owen M. Edwards (gol.) (Wrecsam: Hughes a'i Fab), tt. 792–3.

Erbyn heddiw, wrth gwrs, gwyddom nad ‘gwaith’ a phrysurdeb masnach newydd yn unig a wthiwyd allan ‘o wyll erch y pyllau hir’ ond tarth dinistriol a fyddai’n difetha nid yn unig dirwedd Morgannwg ond yr hinsawdd fyd-eang. Fodd bynnag, cyn diwedd ei fywyd yn 1878, fe ymddengys fod Islwyn hefyd wedi dechrau gweld mai perchenogion y gweithfeydd a’r system gyfalafol a elwodd fwyaf o wywo ‘glwys gaeau’ Merthyr. Ceir cwpled ganddo dan y teitl ‘Gormes Cyfalaf’, sy’n darllen:

> Rhyw deyrn erch ar aur dron oedd
> Cyfalaf, – drygai filoedd.[12]

Dyna’i gyd mae’n dweud – ac mae’n rhyfedd ei fod yn defnyddio amser amherffaith y ferf, fel petai’r drefn gyfalafol wedi dod i ben erbyn saithdegau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond mae’n sicr yn cyfleu nad oedd Islwyn ychwaith o blaid y system a greodd golud mawr yn ei ardal ond dim ond i’r ychydig.

Ni fu’n rhaid i Islwyn ei hun chwilio am waith yn y gweithfeydd newydd. Magwyd ef yn ‘Nhŷ’r Agent’ yn Ynys-ddu, hynny yw, stiward i’r meistri diwydiannol yno oedd ei dad, a chafodd y mab addysg a’i galluogodd ef i fynd yn bregethwr a golygydd heb osod troed mewn pwll glo neu waith haearn. Mae agwedd y beirdd tuag at y chwyldro diwydiannol wrth gwrs yn dibynnu i raddau ar eu galwedigaethau hwy eu hunain a’u teuluoedd, ac mae hynny weithiau’n egluro rhai anghysondebau yn eu gwaith. Pwy a feddyliai, er enghraifft, mai o law’r bardd sydd heddiw’n enwog fel awdur ‘Nant y Mynydd’ ac ‘Alun Mabon’ y daeth y gerdd ‘Yr Agerbair, neu Brenin y Ffyrdd’, hynny yw, y trên:

[12] Islwyn, ‘Gormes Cyfalaf’, yn *Gwaith Barddonol Islwyn* (1897), Owen M. Edwards (gol.) (Wrecsam: Hughes a’i Fab), t. 853.

Mae'n d'od, mae'n d'od, gwnewch chwithau'r ffordd,
Torwch y tywyrch ar rôs a dôl:
Mae Teyrn y ffyrdd mewn rhwysg yn d'od,
Gyda cherbydau y byd o'i ôl.
Mae'n dda genyf weled ei anadl gwyn,
Ar odrau'r mynydd a chopa'r bryn,
A chlywed ei chwiban yn galw'n ddigryn
Mynydd at fynydd a dyn at ddyn! …

Mae'r creigiau'n ffoi i'r pantle draw,
Bryniau a wŷrant ar chwith a de:
A chwympa derw hyna'r byd,
Ar ei ddyfodiad mawreddus e'. ...

Y Berwyn mawr a'r Wyddfa ddewr,
Deimlant yr ebill a blaen y cŷn…

Mae'n d'od, mae'n d'od, gwnawn ninau'r ffordd,
Ffordd i daranau'r olwynion fyrdd:
A chodwn fanllef un ac oll,
Llwydd i frenhiniaeth mawr Deyrn y ffyrdd!'[13]

Mae hon yn darllen bron fel cerdd ddychanol, ond mae'n annhebyg mai cellwair oedd y bardd gan mai gorsaf-feistr oedd Ceiriog wrth ei alwedigaeth. Nid yw mor rhyfedd wedi'r cwbl ei fod ef yn croesawu dyfodiad y trên i Gymru er yr holl niwed a achosodd hynny i'r amgylchedd. Efallai fod y trên yn torri trwy'r tywyrch ar rôs a dôl, yn dryllio'i ffordd trwy'r mynyddoedd ac yn gadael 'derw

[13] John Ceiriog Hughes, 'Yr Agerbair, neu Brenin y Ffyrdd', yn *Oriau'r Bore* (1862) (Rhuthyn: I. Clarke), tt. 55–6.

hyna'r byd' yn ddeillion ar ei ôl, ond bu ei ddyfodiad yn gymorth mawr o ran masnachu cynnyrch y diwydiannau trwm.

Magwyd Ceiriog ar ffermdy ger Llanarmon Dyffryn Ceiriog yn sir Ddinbych, a dyna wrth gwrs sy'n rhoi dilysrwydd i'w holl gerddi ar natur. Ond yn bymtheg oed aeth dros y ffin a chael gwaith fel clerc ym Manceinion, cyn dychwelyd i Gymru fel gorsaf-feistr gyda rheilffordd y Cambrian. Ni fu ef chwaith, dim mwy nag Islwyn, fyth yn weithiwr yn y diwydiannau trwm. Ond nid dyna oedd profiad y mwyafrif o'i gyd-Gymry yn ystod yr oes honno. Magwyd llawer ohonynt hwythau hefyd yn blant i ffermwyr neu dyddynwyr, ond fel bugail Glyn Ebwy fe fu'n rhaid i laweroedd ohonynt adael y fferm am y pwll, y chwarel neu'r gwaith haearn.

Yr hyn sy'n hynod yw bod cynifer o weithwyr y diwydiannau trwm yng Nghymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi llwyddo fel beirdd. Ni cheir unrhyw beth tebyg ymhlith gweithwyr diwydiannol Lloegr yn oes Fictoria. I boblogrwydd y diwylliant eisteddfodol yng Nghymru mae'r diolch am eu llwyddiant. Wedi i fardd amlygu ei hun ar lwyfannau eisteddfodol, fe fyddai ei gapel neu ei gymuned yn aml yn dod at ei gilydd i gasglu arian er mwyn talu am addysg bellach iddo, ac felly'n ei ryddhau o'r lofa. Roedd y diwylliant hwn yr un mor llewyrchus yn cynhyrchu beirdd yng ngweithfeydd llechi'r gogledd ag ym mhyllau'r de. Ond, hyd y gwn i, ni cheir yng ngwaith beirdd y chwareli yr un pwyslais ar y niwed i fyd natur a achoswyd gan y chwyldro diwydiannol ag a geir yng ngwaith beirdd y glofeydd, a hynny, mae'n debyg, oherwydd nad oedd y chwareli yn achosi'r un difrod pellgyrhaeddol i'r amgylchedd â'r glofeydd gyda'u llwch glo. Fodd bynnag, o waith beirdd y de y daw'r gweddill o'r dyfyniadau yn y ddarlith hon.

Yn hunangofiant un ohonynt, sef y bardd a'r gweinidog Ben Davies (1864–1937), cawn ddisgrifiad byw o'r profiad hwnnw a oedd mor nodweddiadol o batrwm bywyd glowyr y cyfnod, sef y newid byd sydyn o'r fferm i'r lofa. Ganwyd Ben Davies mewn ffermdy uwchben Cwmllynfell, pentref diwydiannol yng ngogledd-orllewin sir Forgannwg. Datblygwyd y diwydiant glo yn yr ardal honno ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi i gamlas Cwm Tawe gael ei ymestyn nes cyrraedd Ystradgynlais. Yn 'Darn o Hunangofiant', cofiai Ben Davies iddo ddechrau 'cynorthwyo yng ngwaith y fferm yn weddol fore', hynny yw, yn blentyn. Ond daeth newid byd:

> Pan o fewn mis i fod yn ddeuddeg oed, bu rhaid i minnau, fel fy mrodyr ereill, wynebu'r lofa … Fy ngwaith yma oedd 'cadw drws' – dryso … Byddwn yno am oriau wrthyf fy hun … Carchar rhyfedd oedd hwn i blentyn y mynydd. Cofiaf yr oriau unig yn y gongl gerllaw'r drws! Ai awr heibio weithiau heb i mi weled na chlywed neb. Edrychwn i'r tywyllwch bythol ar bob llaw. Rhoddai fy llusern bŵl ddigon o olau i mi i weled y tywyllwch! … dim ond rhyw bedair siwrnai yn y dydd ai heibio i mi yn ystod deuddeg awr. Deuai hiraeth poenus ataf ar adegau am y caeau, a'r defaid, a'r bryn, a'r mynydd. Ar awr o syched angerddol, byddwn yn portreadu dylif croyw, eirias 'Ffrydiau Twrch' gerbron fy meddwl, ac yn meddwl fod yr haul yn tywynnu ar y caeau – a minnau yn y dyfnder du.

Ond yr oedd ganddo un difyrrwch yn ystod yr oriau hir hynny dan ddaear, sef barddoni:

> Cyfansoddais yma [yn y pwll] lawer o benillion ac englynion – gorffwysant yn dawel ar y llechi llaith ym mynwes yr eigion

> du. Yr oedd Gwilym Wyn yn un o'r 'hauliers' a ddelai heibio, a byddai yn fy holi am ryw gynghanedd neu'i gilydd bob siwrnai.[14]

Dysgodd gynganeddu, meddai, yn ifanc iawn trwy ddarllen *Gramadeg Barddoniaeth* Tegai ac *Ysgol Farddol* Dafydd Morganwg.[15] I fechgyn ei ardal yr oedd barddoni a chynganeddu yn sbort cymdeithasol. Dyma i chi ddisgrifiad gan Gwilym Wyn, sef William Jones, Cwmllynfell (1852–1914), yr halier a ddeuai heibio i Ben Davies yn y pwll, o'r sbri a gawsai bechgyn y lofa wrth ddod at ei gilydd ar ôl oriau gwaith i farddoni:

> Ambell noson deg o'r wythnos
>    Gwelid ni dan lwyni heirdd,
> Fel "derwyddon" yr hen oesau
>    Yn cael orig gyda'r beirdd;
> "Oriau'r Hwyr" ac "Oriau'r Bore",
>    "Oriau Ereill" Ceiriog Hughes,
> A ddarllenem am y gore,
>    Cyn bod sôn am *football news*.
>
> Dysgu nyddu'r "cynghaneddion",
>    A llinellu yn ddiball,
> A chael ffrwd o grechwen iachus
>    Wrth ddarganfod ambell wall;

[14] Ben Davies, 'Darn o Hunangofiant', yn *Ffrwythau Dethol: sef cyfrol o weithiau'r Parch. Ben Davies* (1938), gol. T. Eirug Davies (Llandysul: Gwasg Gomer), t. 26, tt. 35–6.

[15] Ben Davies, 'Darn o Hunangofiant', yn T. Eirug Davies (gol.), *Ffrwythau Dethol: sef cyfrol o weithiau'r Parch. Ben Davies* (1938) (Llandysul: Gwasg Gomer), t. 45. Gweler Hugh Hughes (Tegai) (tua 1860), *Gramadeg Barddoniaeth* (Caernarfon: Humphreys), a David Watkin Jones (Dafydd Morganwg) (1869), *Yr Ysgol Farddol* (Aberdâr: Jenkin Howell).

Hyn yw'r rheswm fod fy ardal
  Wedi codi beirdd o nod,
Wrth fyfyrio pethau ofer
  Ellir byth gyrhaeddyd clod.[16]

Yn ei gyfrol *Canu'r Pwll a'r Pulpud: Portread o'r Diwylliant Barddol Cymraeg yn Nyffryn Aman*, mae Huw Walters yn ymhelaethu ar hanes y llu o feirdd a gynhyrchwyd ym mhyllau glo Rhydaman a'r cylch. Un arall ohonynt oedd Watcyn Wyn (Watkin Hezekiah Williams, 1844–1905) ac yr oedd yntau hefyd yn fab y mynydd i gychwyn. Mae'n debyg mai bregus fu ei iechyd ef trwy gydol ei fywyd, oherwydd iddo orfod dechrau gweithio yn Lefel y Tri Glöyn ger Brynaman yn wyth oed yn 1852, yn dal y golau tra bod ei dad yn torri'r glo i gychwyn ac wedyn yn 'carto' (hynny yw, yn gwthio neu dynnu cert llawn glo ar hyd twneli'r lofa). Ar ôl cyhoeddi Adroddiadau'r Comisiwn Cyflogaeth Plant a phasio Deddf Rheoliad y Pyllau Glo yn 1842, roedd cyflogi plentyn dan ddeg oed i weithio yn y glofeydd yn anghyfreithlon, ond mae'n debyg na phoenwyd perchenogion pyllau glo Cwm Aman rhyw lawer gan y rheolau. Cofiai Watcyn Wyn:

> Gymaint o son oedd yn ein mysg fel crots am garto! Gymaint o helbul oedd i gael cart ysgafn, hwylus, - cart bach nêt! Gymaint o waith oedd cael hewl rwydd! Mor falch oeddem i gael uchder gweddol, rhag taro'n cefnau yn erbyn y top, a cholli'r croen a chael craith! … Gymaint o fysedd gafodd eu clwyfo, gymaint o benliniau anafwyd, gymaint o gefnau dorwyd, a chymaint o ddagrau, ac o chwys, ac o waed

[16] Gwilym Wyn, 'Atgofion Mebyd', yn W. Griffiths (gol.) (1913), *Cerddi'r Mynydd Du* (Aberhonddu: Robert Read, Swyddfa'r *Brecon & Radnor Express*), t. 12.

> gollwyd wrth garto – wrth drafod y cart glo yn y Bwli bach, am wyth ceiniog y dydd![17]

Yn ei gerdd ‘Y Glowyr’ mae Watcyn Wyn, fel Karl Marx, yn disgrifio’r glöwr fel un sy’n gaeth, yn gaethwas i’r system ddiwydiannol:

> Y glowyr tlodion! hwy sy’n dwyn
> Mewn caled waith y beichiau trymaf;
> Mor frwd eu chwys, mor ddu eu crwyn,
> Os nad mor gaeth â’r caethion caethaf;
> Yn gweithio, ond ei hunain ŵyr
> Mor galed, yn y dyfnder dirgel;
> Yn toddi fel y ganwyll gŵyr,
> Yn difa’u cyrff am gyflog isel![18]

Difethwyd iechyd y glowyr nid yn unig gan ddamweiniau yn y gwaith – y to yn disgyn, y nwy yn ffrwydro – ond gan effeithiau niweidiol anadlu llwch glo; y carbon deuocsid yn y llwch oedd yn ‘toddi’ eu cyrff, fel roedd hefyd yn dinistrio’r amgylchedd y tu allan i’r pwll.

Trwy gymorth ei gymuned radlon ym Mrynaman a gasglodd arian er mwyn talu am addysg bellach iddo, llwyddodd Watcyn Wyn i ddianc o’r gwaith glo yn 1872. Aeth yn athro ysgol ac erbyn 1888 roedd wedi agor ei ysgol ei hun, Ysgol y Gwynfryn yn Rhydaman. Daeth y Gwynfryn yn enwog fel magwrfa i lu o feirdd, fel Nantlais, J. T. Job, Crwys, Gwili a T. E. Nicholas, pob un ohonynt wedi bod

---

[17] Watcyn Wyn, *Adgofion Watcyn Wyn* (1907) (Merthyr Tydfil a Chaerdydd: Cwmni Cyhoeddiadol Addysgol), t. 35.

[18] Watcyn Wyn, ‘Y Glowyr’, yn *Caneuon Watcyn Wyn* (1873) (Wrecsam: Hughes a’i Fab), t. 49.

yn ddisgyblion yno. Bu’r ysgol yn ddihangfa yn ei dro i nifer o lowyr eraill, er enghraifft, Eben, neu Ebenezer Aman Jones (1873–1953); ganwyd ef yn fab fferm yng Nglanaman ond bu’n gweithio yn y lofa cyn dod i fri fel bardd ac ennill nawdd gan ei gymdogaeth a’i galluogodd i fynychu Ysgol y Gwynfryn. Cyfansoddodd ei englyn ‘Mab y Mynydd’ cyn gadael y gwaith glo:

> Minnau wyf fab y mynydd – a fagwyd
> Yn fugail ar foelydd;
> A chri di-baid f’enaid fydd
> O na bawn yno beunydd.[19]

Dysgodd Eben gynganeddu yn y pwll glo, fel Ben Davies a Watcyn Wyn hefyd. Athro cynganeddol Watcyn Wyn ym Mhwll y Gwter Fawr yng Nghwm Aman oedd Gwydderig, sef Richard Williams (1842–1917), bardd arall a gychwynnodd ei yrfa lofaol yn wyth oed, yn anghyfreithlon. Ond ni lwyddodd Gwydderig i ddianc o’r gwaith glo erioed, ac amharwyd ar ei iechyd yn ddirfawr gan y llwch. Dyma’i englyn i’r ‘Hen Löwr’:

> Eiddilyn creithiog ddwylo – tenau, llwyd,
> Dyn llesg heb wynt ganddo,
> Am anadl mae’n dymuno,
> Un â’i *lungs* yn llawn o lo.[20]

Erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yn hysbys cymaint o niwed a wnâi llwch glo i’r ysgyfaint. Lledai tarth y glo ar

---

[19] Ebenezer Aman Jones, ‘Mab y Mynydd’, yn Huw Walters (1987), *Canu’r Pwll a’r Pulpud: Portread o’r Diwylliant Barddol Cymraeg yn Nyffryn Amman* (Dinbych: Cyhoeddiadau Barddas), t. 39.

[20] Gwydderig, ‘Yr Hen Löwr’, yn Thomas, J. Lloyd (gol.) (1959), *Gwydderig: pigion allan o’i weithiau* (Llandybïe: Llyfrau’r Dryw), t. 42.

draws cymoedd cul y pentrefi glofaol, a gwyddai'r trigolion bod ei heffeithiau niweidiol yn amharu nid yn unig ar fywydau'r glöwyr, ond ar fywydau trigolion y cymoedd a'r amgylchedd yn gyffredinol. A hynny'n ddianghenraid: gellid bod wedi troi at ynni amgen er mwyn gyrru peiriannau oes Fictoria. Dyfeisiwyd y peiriant trydan yn 1821 a dechreuwyd cynhyrchu trydan dŵr (hydro-electricity) yn 1878. Roedd trenau a cheir trydan wedi eu dyfeisio cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond o safbwynt y cyfalafwyr a fuddsoddodd yn y pyllau glo, yn hytrach na dewis ariannu'r arbrofion gydag ynni amgen, roedd glo dipyn yn rhatach ac yn haws cael gafael arno.

Gwyddai'r beirdd fod trigolion pob ardal a ddeuai o dan gyffyrddiad y carbon deuocsid yn llwch y glo yn debygol o fod mewn perygl o ddatblygu clefyd yr ysgyfaint – asthma, bronchitis neu silicosis. A'r tarth hwnnw hefyd oedd yn gyfrifol am ladd byd natur o'u cwmpas. Dyma ddisgrifiad Gwydderig o'r tarth, y cwlwm o lwch glo a orchuddiai'r pentrefi glofaol:

> Nudd llwyd fel hen ddilledyn – oer, eistedd
> Ar wastad y dyffryn
> Yw Tarth rhydd llonydd fel llyn
> A barrug yn ei boeryn.[21]

Ond uwchben y cwm cul a'i resi o dai teras o dan y tarth codai'r mynydd, ei frig o hyd yn wyrdd ond ei lethrau isaf yn ddu, ac mae'r gwrthgyferbyniad rhwng y ddau fyd yn cael ei bwysleisio gan lawer bardd.

---

[21] Gwydderig, 'Tarth', yn J. Lloyd Thomas (gol.) (1959), *Gwydderig: pigion allan o'i weithiau* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw), t. 47.

‘Dianc i’r Mynydd’ oedd dyhead Dyfnallt, sef John Dyfnallt Owen (1873–1956) o Lan-giwg yn Nyffryn Aman:

> Mae ’roglau trwm hofelau llwm,
> A thrafael yn y stryd,
> A phawb a ddaw trwy’r dŵr a’r baw
> O dan eu baich i gyd.
>
> Gwyn fyd y neb a gaffo
> Ar fryn uwchben y dre
> Ddiofal hynt, a chwmni gwynt
> A threm ar las y ne …
>
> Y glas di-len goruwch ei ben,
> A’r gwyrdd o dan ei draed.[22]

Fel Watcyn Wyn a Ben Davies, llwyddodd Dyfnallt i ddianc o’r lofa: cychwynnodd ei yrfa yn y pwll glo, ond daeth wedyn yn weinidog yn Rhyl ac Archdderwydd yr Eisteddfod Genedlaethol. Yma, mae’n dymuno ar gyfer cymdogaeth y pyllau glo yn gyffredinol ddihangfa oddi wrth lwch a tharth y gweithfeydd.

O ganlyniad i’w hymateb i’r gwahaniaeth eithafol amlwg rhwng glendid y mynydd yn union uwchben y cwm diwydiannol cul a düwch y gweithfeydd a’r tai teras dan y tarth o danynt, ceir yn aml gan y beirdd gri taer o blaid dod â’r diwydiant glo i ben. Cymerer, er enghraifft, ddatganiad y bardd a’r clerigwr Glanffrwd (William Thomas, 1843–1890) yn 1880, wrth iddo alaru dros ffawd ei blwyf genedigol Llanwynno yn y Rhondda, lle y cychwynnodd ei yrfa

[22] Dyfnallt, ‘Dianc i’r Mynydd’, yn *Y Greal a Cherddi Eraill* (1946) (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth), t. 489.

fel llifiwr. Daeth y diwydiant glo i'r ardal honno yn yr 1850au a'r 1860au a'i difetha, yn ôl Glanffrwd:

> Mae plwyf Llanwynno wedi gweled cyfnewidiadau mawrion yn ddiweddar. Y mae y trwst a'r prysurdeb, y cyffro a'r ystŵr sydd yn awr wedi cymryd lle y tawelwch … yn ddigon i beri i Gwynno Sant godi ar ei eistedd yn ei fedd a melltithio y bobl sydd wedi torri ar heddwch y plwyf, ac wedi aflonyddu ar un o hen dawelfannau natur. Yn boeth y bo'r cwbl!
>
> Y mae afon Ffrwd yn griddfan ar ôl ei chyn-loywder, a Clydach fel pe'n ceisio ffoi rhagddi ei hun i ymguddio rhag cywilydd ym monwes Taf. Ow! fy hen Lanwynno, goddiweddwyd tithau o'r diwedd gan draed y gelyn! Sathrwyd ar gysegredigrwydd dy gaeau prydferth, gyrrwyd dy adar perorus ar encil, gweryrodd y march tanllyd, ac ysgrechodd fel mil o foch ar dy lanerchau heirdd! Mor deg, mor dawel, mor bur, mor ddistaw, mor annwyl oeddit cyn i'r anturiaethwyr durio dy fonwes! Ond yn awr, yr wyt fel – wel, fel pob lle y mae glo ynddo![23]

Mae llawer bardd o'r Rhondda yn ategu ei eiriau. Dechreuodd Ben Bowen (1878–1903) weithio ym Mhwll Glo Tynbedw, Treorci, yn ddeuddeg oed. Yn ifanc iawn bu'n cystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau; daeth yn adnabyddus fel bardd ac oherwydd hynny yn 1897 cafodd y cyfle i adael y pwll er mwyn paratoi ar gyfer y weinidogaeth. Ond rhyddhawyd ef o'r gwaith yn rhy hwyr i achub ei iechyd: gwaedodd o'i ysgyfaint yn 1899 a bu farw yn bump ar hugain oed. Mae ganddo ef gerddi cofiadwy am y modd yr oedd

[23] William Thomas, Glanffrwd (1888), yn Lewis, Henry (gol.) (1949), *Llanwynno* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 13.

y farchnad lo yn dinistrio iechyd byd natur. Yn ‘Moel Cadwgan’, er enghraifft, mae’n cyfarch y mynydd uwchben ei gartref sydd ‘wedi colli’th dlysni’:

> Heulwen ar dy gopa
>    Cwmwl wrth dy draed
> Masnach ddall fan yma
>    Sugna i ffwrdd dy waed …

Y fasnach lo, wrth gwrs, sydd wedi creu’r cwmwl annaturiol o dan yr heulwen, a gwneud ‘cawr o dan ei glwyfau’ o’r mynydd gan droi ei lethrau’n ‘llwyd a thlawd’. Gofynna’r bardd a oes gobaith y caiff Moel Cadwgan fyth ddychwelyd i’w lendid cynhenid:

> ’Bryd paid llwch y lofa
>    Ddifa’r blodyn bach?
> ’Bryd aiff tawch y danchwa
>    O’r awelon iach?… [24]

Mae’n gwybod yn iawn fod tawch y glo, y carbon deuocsid yn yr awyr, yn difa popeth byw – blodau’r mynydd yn ogystal â’i fywyd yntau. Daeth dihangfa o lwch y gwaith i’r cymoedd o’r diwedd, fel y gwyddom, ond yn rhy hwyr i arbed iechyd yr hinsawdd.

Nid bardd eisteddfodol oedd Murmurydd, sef Walter Morgan (1867–1953) ond bardd cefn gwlad, er iddo weithio trwy ei fywyd fel glöwr. Ganwyd ef mewn ffermdy bychan ger Llandybïe yn Sir Gaerfyrddin, ond oherwydd tlodi bu’n rhaid iddo gymryd gwaith ym mhyllau’r Rhondda. Hiraeth am fywyd gwledig yw prif thema

[24] Ben Bowen, ‘Moel Cadwgan’, yn Bowen, David (gol.) (1904), *Cofiant a Barddoniaeth Ben Bowen* (Treorci: David Bowen), tt. 149–50.

ei gerddi a gasglwyd mewn cyfrol gyda'r teitl *Grawn Murmurydd*. Mae neges berthnasol iawn i ni heddiw yn amryw o'i benillion, er enghraifft y gerdd ''Nid Da Taflu Baw i'r Ffynnon':

Paid taflu baw i'r ffynnon fach,
Fu'n dda i'th ddisychedu;
Paid anwybyddu'i bwrlwm iach,
Paid cynnig ei hamharchu …[25]

Gweler hefyd ei ryfelgân, 'Yn ôl i'r Tir':

'Yn ol i'r tir!' – clywch yr alwad!
  Atebwch y llonfloedd yn hy:
Hen utgorn dyletswydd a seinia fyth,
  'Ar unwaith dychwelwch yn llu.'
Fe droes y wlad oll yn wylltineb,
  Mae'r ddaear mewn angen ei thrin,
A golwg aflêr y sydd arni oll,
  Fel pedfai dan ddial pob dyn …

Dewch! Rhennwch y ffermydd gorfawrion
  A throwch hwy'n dyddynnod bob un:
Mae'n rhaid cael y tiroedd yn ol i'w graen …

'Yn ol i'r tir,' gyd-fforddolion, –
  Rhaid troi i'r gwrthwyneb pob cwys …[26]

[25] Walter Morgan, Murmurydd, 'Nid Da Taflu Baw i'r Ffynnon', yn *Grawn Murmurydd: sef prydyddiaeth Walter Morgan* (1928) (Aberdâr: Hy. Lloyd ap Hefin), t. 26.

[26] Walter Morgan, Murmurydd, 'Yn Ol i'r Tir', yn *Grawn Murmurydd: sef prydyddiaeth Walter Morgan (Murmurydd), Bronllwyn y Geli, Rhondda* (1928) (Aberdâr: Hy. Lloyd ap Hefin), t. 58.

Cyfansoddwyd y gerdd hon ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd y diwydiant glo yng Nghymru ar ei hanterth, ond gwyddai Murmurydd ym mêr ei esgyrn y pryd hynny fod yn rhaid dod â'r gweithfeydd trwm i ben ar fyrder er mwyn achub y ddaear o'i chamdriniaeth gan ddyn.

Fodd bynnag, i'r ychydig rai ffodus, roedd yna wastad un ffordd arall, yn ogystal â mynd yn bregethwr, o ymwrthod â'r diwydiannau mawr, sef brwydro ymlaen er gwaethaf yr amgylchiadau fel ffermwr neu dyddynnwr. Bardd arall a brotestiodd yn erbyn dyfodiad y diwydiant glo i gymoedd y Rhondda oedd Brynfab (Thomas Williams, 1848–1927). Gwrthododd ef adael ei ffermdy ar lethrau uchel Mynydd Eglwysilan uwchben Pontypridd, a llwyddodd i aros yn y 'fasnach werdd' trwy gydol ei oes. Os am hanes *How Green Was My Valley* go-iawn, rhaid troi at ei nofel ef, *Pan Oedd Rhondda'n Bur* (1912). Mae digwyddiadau'r nofel hanesyddol hon yn digwydd rhwng 1837, pan agorwyd y gweithfeydd glo mawrion yng Nghwm Cynon, ac 1851 pan gyhoeddwyd adroddiad swyddogol yn enwi glo ager Cymru fel y tanwydd gorau ar gyfer llongau'r Llynges Frenhinol. O ganlyniad, rhuthrodd brenhinoedd y glo i'r Rhondda, lle y canfuwyd gwythiennau cyfoethog o lo ager, a dechreuwyd agor pyllau yno ar frys gwyllt. Ond nid yw'r stŵr hwnnw eto wedi dechrau amharu ar fywyd trigolion cwm Rhondda yn nofel Brynfab.

Mae'r stori'n cychwyn gyda chymeriad o'r enw Mocyn Dafydd o Aberdâr yn ymweld â'r gof Wil Oliver ym Mhontypridd.

> Yr oedd Mocyn yn arfer dyfod yn achlysurol i dynu ei rwyd trwy afon Rhondda, am fod Cynon erbyn hyny wedi colli ei gloewder cynhenid …

Canlyniad dyfodiad y diwydiant glo i Gwm Cynon oedd afon wedi ei llygru, heb bysgod ynddi mwyach, ond mae Mocyn yn dal i fedru llenwi ei fasged â physgod y Rhondda. Mae'n gobeithio y bydd yn cael gafael ar gwsmeriaid ar gyfer ei ddalfa yng ngefail y gof, ond meddai Wil wrtho:

> 'Fyddai yr un man i ti geisio hedfan, Mocyn, a cheisio gwerthu pysgod yma, am fod y dynion yn cael gwell blas arnynt wedi iddynt eu dala eu hunain.'[27]

Mae poblogaeth y cwm, cyn agor y glofeydd, yn hunangynhaliol, yn medru byw a bod ar gynnyrch y byd natur toreithiog ac iach o'u cwmpas.

Aros yn y Rhondda, yng ngefail Wil Oliver ac yng nghymdeithas ei gwsmeriaid amaethyddol, a wnawn trwy weddill y nofel. Ar y gorwel, mae bygythiad y newidiadau sydd i ddod, gyda rhai ffermwyr yn dechrau sôn am werthu eu tir i'r anturiaethwyr glo. Ond nid yw hynny eto wedi ymyrryd â hen ffordd o fyw yr ardal, gyda'i chymorthfeydd adeg cynhaeaf neu gneifio'r defaid, ei chapeli a'u cyrddau mawr, ei heisteddfodau a chyfarfodydd y beirdd, sef 'Clic y Bont' ym Mhontypridd. Nid oes llawer o stori na chynllun i'r nofel, er ei bod yn llawn bywyd; ymddengys mai ei phwrpas yw dangos i'w darllenwyr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif mor gymdeithasgar a diwylliedig oedd trigolion y Rhondda cyn cychwyn y rhuthr am ei glo.

Fel diweddglo i'r nofel, ceir cerdd gan Brynfab lle y mae'n cyfarch 'Cwm Rhondda' fel y mae yn y presennol, hynny yw, yn 1912, ar

[27] Thomas Williams, Brynfab (1912), *Pan oedd Rhondda'n bur: ffugchwedl nodweddiadol o Gwmrhondda* (Aberdâr: Pugh & Rowlands, Swyddfa'r *Leader* a'r *Darian*), tt. 1–2.

anterth y fasnach lo, ac yn galaru ar ôl y cyfoeth go-iawn a gollwyd er mwyn cyfoethogi'r cyfalafwyr:

Gyfoethog Gwm y Rhondda
   Ei olud yw ei fri:
Ond golud yw andwya
   Ei harddwch ef i ni;
Ni wrida tlysni anial
   I'w wyneb ef yn awr
Ei olud anweledig
   Chwyrnella'i fri cyntefig
      Bob dydd trwy'r cwm i lawr.

Wrth i'r trysor peryglus, y glo, gael ei rwygo o'i guddfan ddiogel tan ddaear, a'i gludo ar y trenau i lawr i borthladdoedd y Barri a Chaerdydd, daw'r cymoedd i fri rhyngwladol, ond 'bri cyntefig' ydyw yn ôl y bardd o'i gymharu â naturioldeb coeth y dydd a fu. Rheibiwyd Cwm Rhondda a rhwygwyd eu bywoliaeth oddi wrth ei hamaethwyr:

Mae cyfoeth mawr ei fynwes
   Yn duo'i wyneb glan,
A nerth ei galon gynnes
   Yn myn'd yn ddefnydd tân;
Ni ddaw o'i feusydd heddyw
   Gân 'Hogyn Gyru'r Wedd,'
Twrf masnach sydd yn deffro
   Y clogwyn fu'n breuddwydio
      Yn ei naturiol hedd.

Mynyddoedd dan eu creithiau
  A welir uwch ei ben,
A duwch ei ddyfnderau
  Yn fryniau yn y nen;
Mae pylor wedi chwalu
  Ei greigiau megys gro,
A gwelir ei glogwyni
  Yn dduon eu talceni
    Dan wawd y “talcen” glo. [28]

Mae ymysgaroedd y mynyddoedd wedi eu rhwygo i’r wyneb, a’u coluddion wedi eu gadael yn domennydd o dipiau glo i wenwyno byd natur o’u cwmpas, yn ogystal ag iechyd y trigolion yn eu tai teras o dan darth y gwaith.

Nid yw Brynfab, ddim mwy na llawer o’r llenorion eraill a glywsom eu lleisiau yn y ddarlith hon, yn dewis portreadu twf gwleidyddiaeth sosialaidd y cymoedd yn ystod ei oes. Ond eto ni ellir honni nad oes yn ei lên ef, fel yng ngwaith llawer o’r lleill, agwedd wleidyddol wrth-gyfalafol – sef gwleidyddiaeth werdd. Neges y bardd i’w ddarllenwyr heddiw, yn oes y newid hinsawdd, yw: ‘Ceisiasom eich rhybuddio! Meddyliwch, o ddifrif, pa mor wahanol fyddai eich rhagolygon chi heddiw pe bai eich cyndadau wedi gwrando ar ein neges a gadael y glo yn y tir.

Peidiwch ymyrryd â byd natur yw cri Gwili, neu John Jenkins, yn ogystal. Ganwyd ef yn 1872, yn fab i weithiwr yn y diwydiant alcam ym Mhontarddulais, ond trwy’r gwelliannau ym myd addysg

[28] Thomas Williams, Brynfab (1912), *Pan oedd Rhondda’n bur: ffugchwedl nodweddiadol o Gwmrhondda* (Aberdâr: Pugh & Rowlands, Swyddfa’r *Leader* a’r *Darian*), tt. 67–8.

ar ôl Deddfau Addysg 1870 a 1880, llwyddodd i gael swydd fel athro-fyfyriwr yn bymtheg oed, ac aeth ymlaen i fod yn brifathro Ysgol y Gwynfryn, ar ôl ymddeoliad Watcyn Wyn. Arhosodd yng nghymoedd y glo trwy ei fywyd, ac er na fu'n rhaid iddo weithio yn eu diwydiannau trwm, bu'n dyst yn ddyddiol i'w heffeithiau ar fyd natur. Colli gwyrddni yw thema llawer o'i ganeuon, fel y gerdd 'O Paid a Thorri Brigau'r Coed', er enghraifft, sy'n debyg iawn o ran thema i'r gerdd o'r unfed ganrif ar bymtheg, 'Coed Cwm Cynon' a ddyfynnwyd ar gychwyn y ddarlith hon:

> O, paid â thorri cangau'r coed,
> O, paid â noethi'r brig;
> Pa fodd y meiddi roddi troed
> Yr ynfyd yn y wig?

Mae Gwili'n pwysleisio'r modd y mae harddwch a heddwch byd natur yn cynnal ysbryd dyn yn ogystal â'i fywyd materol:

> O, paid â thorri brigau'r coed,
> A throi eu gwedd yn wyw;
> Mae ysbryd yn yr allt erioed
> Mewn myfyr dwys yn byw.[29]

Ac mae'n gwybod yn iawn, wrth gwrs, yn lle i roi'r bai am y diffeithwch o'i gwmpas yn y cymoedd diwydiannol. Meddai yn ei gerdd 'Natur a Duw':

> Mewn byd heb swyn, gan dwrf peiriannau croes,
> Dolefais, lawer awr, dan ddycnaf gloes;

[29] Gwili (1896), 'O, Paid a Thorri Brigau'r Coed', yn *Caniadau Gwili* (1934) (Wrecsam: Hughes a'i Fab), t. 43.

“Paham na roesai Ffawd fy nydd i mi
Yn Helas effro a’r wyryfol oes? … ”

Hynny yw, ‘O na chefais fy ngeni cyn dyfod y chwyldro diwydiannol’. Erbyn ei oes ef, meddai,

Oferedd im freuddwydio am gael yn ôl
Fireindeb cain a dybiai f’oes yn ffôl;
Er hyn mwy filwaith im na gwybod oer
Fy nydd yw’r hud a wisgai bryn a dôl.[30]

Heddiw, ganrif ar ôl oes Gwili, mae rhywfaint o wyrddni wedi dychwelyd i’r cymoedd ar ôl cau’r pyllau, a hynny’n dangos i ni allu natur i adfywio pan gaiff y cyfle. Ond er mwyn rhoddi’r cyfle hwnnw iddi’n llawn heddiw, rhaid gwrthsefyll rhai o rymoedd mwyaf pwerus a chyfoethog ein hoes. Ynghyd â gwybodaeth iasol ein dydd ynghylch beth a ddaw ohonom os parhawn i dyrchu tanwydd ffosil i’r wyneb a’i losgi, gall ymdeimlad o hud byd natur, yr ysbrydoliaeth a’r hapusrwydd y mae’n ei ennyn, hefyd ein hymegnïo i frwydro ymlaen yn erbyn y rhai a fyn ei ddinistrio er mwyn gwneud elw. Ac mae trysorfa ein traddodiad barddol, fel yr wyf yn gobeithio bod y ddarlith hon wedi llwyddo i awgrymu, yn medru bod yn gefn ac yn sbardun ymlaen i ni yn y frwydr honno.

[30] Gwili (1899), ‘Natur a Duw’, yn *Caniadau Gwili* (1934) (Wrecsam: Hughes a’i Fab), t. 69.

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Yn ogystal â dadansoddi llenyddiaeth sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd, mae nod gwleidyddol i ecofeirniadaeth, sef dyfnhau ein dealltwriaeth hanesyddol o achosion yr argyfwng amgylcheddol presennol a'n ymnerthu i wrthsefyll y rhai a fyn ei ddiystyru. Yn y ddarlith hon byddwn yn ystyried gwaith barddonol rhai o Gymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y trawsffurfiwyd eu bywydau gan y chwyldro diwydiannol, ac yn gofyn a oes neges i ni heddiw yn eu hymateb hwy i golli gwyrddni?

Athro Emerita yn Ysgol y Dyniaethau ym Mhrifysgol De Cymru yw Jane Aaron ac awdur *Pur fel y Dur. Y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* a enillodd Wobr Goffa Ellis Griffith ym 1999, *Nineteenth-Century Women's Writing in Wales* a enillodd Wobr Roland Mathias yn 2009, y gyfrol *Welsh Gothic* (2013), a'r cofiant *Cranogwen* a enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn yn y categori Ffeithiol Creadigol yn 2024.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd: Dr Aled Eirug
Prif Weithredwr: Dr Ioan Matthews
Ffôn: 01267 610400
E-bost: gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cofrestrfa'r Brifysgol
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NS

Llywydd: Yr Athro Hywel Thomas
Prif Weithredwr: Olivia Harrison
Ffôn: 02920 375054
E-bost: cddc@cymru.ac.uk
www.cymdeithasddysgedigcymru.ac.uk

ISBN 978-1-911528-45-6
9 781911 528456